# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 7-11 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

GWEITHGAREDD 3

## PARTI BETH AM GYSYLLTU?

**Mae'r gweithgaredd hwn yn dangos i'r disgyblion y gallwn i gyd gysylltu â'n gilydd; beth bynnag yw ein hoedran, cyfnod datblygu, neu brofiadau bywyd, ac y gall pob un ohonom gysylltu mewn gwahanol ffyrdd.**

**DS:** Byddwch yn arbennig o ymwybodol o ddisgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhai sy'n cael gofal gan berthynas, a phlant sydd efallai yn cael cyswllt cyfyngedig â'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu wrth wneud y gweithgaredd hwn.

- Siaradwch â'r disgyblion am y ffyrdd maen nhw'n cysylltu â ffrindiau a theulu ar achlysuron arbennig e.e. pen-blwyddi, Eid, Diwali ac ati. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried sut maen nhw'n cysylltu ar yr achlysuron hyn (e.e. cysylltu trwy fwyd, diod, gemau, defodau, caneuon, cerddoriaeth ac ati).
- Cynlluniwch barti neu weithgaredd a fydd yn eu helpu i gysylltu ag eraill yn y gymuned. A all y disgyblion feddwl am bwy yr hoffent eu cynnwys - er enghraifft, pobl sydd efallai ddim yn cael cymaint o gyfleoedd i gysylltu â phobl eraill megis preswylwyr cartref gofal.
- Defnyddiwch fideos i archwilio sut mae pobl o wahanol oedrannau ac o wahanol gefndiroedd yn gallu cysylltu. Gweler ein fideos awgrymedig isod.

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 7-11 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I wahaniaethu neu ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**

# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 7-11 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023



FIDEO 1

## OLD PEOPLE'S HOME FOR 4-YEAR-OLDS

Cliciwch yma i wylio'r fideo

- Esboniwch fod hwn yn brosiect arbennig lle'r oedd pobl yn byw mewn cartref hen bobl yn cysylltu â disgyblion oedd yn mynd i feithrinfa i weld beth y gallent ei ddysgu gan ei gilydd.
- Rydym wedi awgrymu rhywfaint o glipiau o'r fideo a phwyntiau trafod.

**Victor and the dance teacher [0.31 – 1.37]**

- Beth oeddech yn ei feddwl pan welsoch chi Victor ar ei ben ei hun am y tro cyntaf?
- Beth newidiodd i Victor?
- Sut allwch chi ddweud bod Victor yn teimlo cysylltiad?
- Pam ydych chi'n meddwl bod yr athro dawns wedi mynd at Victor?
- Pa gysylltiad â'i orffennol oedd Victor yn ei brofi?
- Sut oedd gwylio'r fideo hwn yn gwneud i chi deimlo?

**Choosing partners [5.34 – 6.41]**

- Sut ydych yn credu oedd y cymeriad yn teimlo pan gawsant eu dewis?
- Roedd y prosiect hwn yn ymwneud â chysylltu'r hen a'r ifanc - o'r clip hwn, beth ydych yn meddwl yw manteision y cysylltiad hwn i'r bobl hŷn a'r bobl ifanc?

**A trip to the park [6.42 – 7.40]**

- Pam ydych chi'n meddwl bod Dot wedi mynd yn ôl at Pat?
- Sut ydych chi'n meddwl oedd Pat yn teimlo?
- Roedd y clip hwn yn dangos gofal a chysylltiad - a allwch chi weld y gwahanol ffyrdd y mae Dot a Pat wedi cysylltu?

# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 7-11 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023



FIDEO 2

## KIDS AND SENIORS CELEBRATE 103RD BIRTHDAY

Cliciwch yma i wylio'r fideo

- Dyma glip arall o'r fideo Old People's Home for 4-Year Olds. Gallech wylio'r ddau, neu un ar y tro fel gweithgareddau ar wahân.
- Gofynnwch gwestiynau i archwilio'r thema o gysylltiad.

**Fred's evacuation to America [0.25 – 2.19]**

- Sut wnaeth Fred aros mewn cysylltiad â'i deulu?
- Sut deimlad ydych chi'n meddwl oedd bod mor bell oddi cartref?
- Sut ydym ni'n defnyddio technoleg nawr i aros mewn cysylltiad? Sut mae hyn yr un fath ac yn wahanol i brofiad Fred?
- Pa gwestiynau hoffech chi eu gofyn i Fred am ei brofiadau?

**Sylvia's 103rd Birthday Party [2.20 - end]**

- Pa bethau wnaeth Sylvia a'r disgyblion eu dweud neu eu gwneud i ddangos eu cysylltiad?
- Sut ydych chi'n meddwl oedd Sylvia a'r bobl eraill yn y fideo yn teimlo?
- Beth fyddai eich dymuniad chi?
- Petaech yn gallu ysgrifennu rhywbeth yng nghherdyn pen-blwydd Sylvia, beth fyddech yn ei ysgrifennu?